



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch

Dyddiad cyhoeddi: 26 Gorffennaf 2019  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: 20 Medi 2019

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal i geisio eich barn ar y gwelliannau arfaethedig rhwng cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar yr A40, Sir Benfro. Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn eich gwahodd i rannu eich barn ar: a) yr ateb a ffefrir a nodwyd yn y lle cyntaf, b) gwelliannau y gellid eu gwneud i'r ateb a ffefrir a c) mesurau teithio llesol y gellid eu hymgorffori o bosibl.

**Sut i ymateb**

Er mwyn ein helpu i ystyried eich adborth, ymatebwch i'r cwestiynau ar y ffurflen adborth a ddarparwyd a'i dychwelyd drwy'r e-bost neu'r post. Croesewir ymatebion yn Gymraeg a Saesneg a rhaid eu cyflwyno erbyn 20 Medi 2019 man hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/gwelliannau-ir-a40-rhwng-penblewin-redstone-cross-0>

Bwriedir cynnal Digwyddiad Ymgynhori yn Neuadd y Frenhines, Arberth ar 2il Medi 2019 rhwng yr oriau 12 - 8pm.

**Manylion Cysylltu**

Cyfeiriad:

FREEPOST RTLK-KURC-ELKJ  
Prosiectau Seilwaith – Trafnidiaeth  
LLYWODRAETH CYMRU  
PARC CATHAYS  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost: [A40enquiries@arup.com](mailto:A40enquiries@arup.com)

Martin Gallimore (Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd)  
Ffôn: 07923 887119

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost:  
[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cyflwyniad

Rydym wedi cynnal dwy Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd mewn perthynas â'r opsiynau a roddwyd ar y rhestr fer ar gyfer y Cynllun yn ystod Ebrill a Mai 2019. Diolchwn i chi am yr adborth a ddaeth i law hyd yma, ac rydym wedi gwrandao ar eich awgrymiadau, pryderon a dewisiadau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal i geisio eich barnau ar y gwelliannau arfaethedig rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar yr A40, Sir Benfro. Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn eich gwahodd i rannu eich barn ar: a) yr ateb a ffeffrir a nodwyd yn y lle cyntaf, b) gwelliannau y gellid eu gwneud i'r ateb a ffeffrir a c) mesurau teithio llesol y gellid eu hymgorffori o bosibl.

Er eglurder, mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn benodol â Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch ac nid Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin.

## Cyd-destun y prosiect

Yn Rhagfyr 2004, cyhoeddodd y Gweinidog ei Adendwm at Flaenraglen Cefnffyrdd 2002 ac roedd hwn yn cynnwys dau brif gynllun gwella'r ffordd unffrwd ar gyfer yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr. Byddai'r gwelliannau yn defnyddio'r cyfluniad 2+1 gan alluogi goddiweddyd ar y cyfeiriad dwy lôn, gyda goddiweddyd wedi'i wahardd yn y cyfeiriad un lôn; byddai'n cael ei gyflawni yn y camau canlynol:

- a) A40 Penblewin - Parc Slebets
- b) A40 Llanddewi Felffre - Penblewin.

Cwblhawyd y cyntaf o'r prosiectau hyn, Penblewin - Parc Slebets, ym mis Mawrth 2011.

Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Edwina Hart AC CStJ MBE, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu'u blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth. Roedd y datganiad yn cynnwys y canlynol:

*“Mae Bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau wedi pennu y dylid rhoi blaenoriaeth i wella'r A40, ac mae'n fwriad gen i ddatblygu ymhellach y gwelliannau a gynigiwyd eisoes.”*

Ar 12 Tachwedd 2014, wrth roi diweddariad ynglŷn â chau Purfa Murco yn Aberdaugleddau, gwnaeth y Gweinidog Ddatganiad llafar mewn Cyfarfod Llawn:

*“O ran cysylltiadau trafndiaeth, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gyflymu'r rhaglen ar gyfer cyflawni gwelliannau yn Llanddewi Felffre i'r graddau mwyaf posibl.”*

Ym mis Mehefin 2015, mewn datganiad ysgrifenedig ar Astudiaeth Gwella'r A40, nododd y Gweinidog: *“Fy mwriad yw bwrw ymlaen â chyflawni cynllun yr A40 Llanddewi Felffre i Benblewin cyn gynted ag y bo modd...”*

Bwriedir cyhoeddi'r Gorchmynion drafft a'r Datganiad Amgylcheddol yn yr Haf 2019 ar gyfer Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felfre i Benblewin (cynllun cyfagos).

Yn 2017, fe wnaeth y rhai a fynychodd yr Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd ar gyfer Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felfre i Benblewin fynegi'u cefnogaeth i welliannau wrth Groesffordd Maencoch.

Ym mis Awst 2018, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC, gadarnhau'n ysgrifenedig i'r Uwch Grwner mewn ymateb i'r cwest i farwolaeth gyrrwr yn ymuno â'r A40 wrth Groesffordd Maencoch<sup>1</sup>, y byddai ymchwiliadau'n dechrau i edrych ar wella diogelwch y gyffordd a darparu mwy o gyfleoedd i oddiweddyd yn ddiogel ar hyd yr A40, sy'n cynnwys gwelliannau wrth Groesffordd Maencoch.

Ym mis Ionawr 2019, dechreuodd Arup (gyda chefnogaeth RML), ymchwilio i'r problemau a datblygodd atebion effeithiol posibl i fynd i'r afael â'r problemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar hyd yr A40 rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesfan Maencoch ar gyfer Llywodraeth Cymru.

## **WeITAG**

Mae astudiaeth gyfunol Cam 1 a 2 yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WeITAG) wrthi'n cael ei chynnal ar hyn o bryd. Mae cynlluniau ac amcanion y Cynllun wedi'u pennu ac mae atebion wedi'u nodi, eu hadolygu ac wrthi'n cael eu harfarnu. Mae'r problemau a'r amcanion yn gydnaws â'r rheini o gynllun Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felfre i Benblewin, sydd wedi'u cytuno gyda'r Grŵp Adolygu. Mae WeITAG yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ystyried effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

## **Problemau**

Fe wnaeth yr Astudiaeth WeITAG sydd wrthi'n cael ei chynnal nodi'r problemau a restrir isod. Roedd y dystiolaeth a'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd yn cynnwys: arolygon geoffisegol, arolygon o fioamrywiaeth, cyfrifiadau traffig, deddfwriaeth a pholisi, dibynadwyedd amserau siwrneiau, darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus, natur dymhorol data traffig, data ar ddifrifoldeb damweiniau, data economaidd-gymdeithasol a chyfyngiadau amgylcheddol.

Mae'r problemau a nodwyd fel a ganlyn:

1. Mae prif linell yr A40 a Chyffordd Croesffordd Maencoch yn is na'r safon.
2. Mae cyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyd yn arwain at ddibynadwyedd gwael o ran amserau siwrneiau a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr.
3. Mae confois achlysurol o gerbydau nwyddau trwm o'r porthladdoedd fferi a cherbydau amaethyddol yn symud yn araf yn cyfrannu at gyfnodau o blatwnio ac amserau siwrneiau annibynadwy, a waethygir gan gyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyd.
4. Mae amrywiadau sydyn tymhorol ym maint y traffig ar hyd yr A40 yn enwedig yn ystod misoedd yr haf yn arwain at draffig yn symud yn araf gan achosi

---

<sup>1</sup> <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2018/09/2018-0242-Response-by-Welsh-Government.pdf>

annibynadwyedd o ran amserau siwrneiau, a waethygir gan gyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyd.

5. Ceir llawer o gyffyrdd ffyrdd ymyl a mynedfeydd uniongyrchol i eiddo a chaeau amaethyddol oddi ar yr A40, sy'n cyfrannu at broblemau gweithredol ar hyd y ffordd.
6. Mae cymysgedd o fathau o draffig yn defnyddio'r ffordd, gan gyfrannu at annibynadwyedd o ran amserau siwrneiau a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr, a symudiadau peryglus a gwrthdrawiadau difrifol.
7. Mae diffyg cysylltedd trafniadaeth gyhoeddus strategol yn Sir Benfro yn golygu'n gyffredinol y dibynnir ar y car preifat ar gyfer cysylltiadau rhyng-drefol.

## **Amcanion y cynllun**

Mae nifer o amcanion y Cynllun wedi'u datblygu a'u llywio drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r amcanion yn ystyried materion trafniadaeth strategol a lleol, fel a ganlyn:

- A1** Gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafniadaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth.
- A2** Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlfordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro yng Ngorllewin Cymru.
- A3** Lleihau hollti cymunedol a chreu buddion o ran iechyd ac amwynderau.
- A4** Gwella diogelwch wrth Gyffordd Croesffordd Maencoch (gan gynnwys diogelwch canfyddedig) a lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau.
- A5** Hyrwyddo teithio llesol drwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl fyw bywydau iach.
- A6** Cyflawni cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafniadaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanolfannau trafniadaeth allweddol.
- A7** Cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwysu gwastraff a charbon.
- A8** Rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafniadaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo hynny'n ymarferol.

## **Datblygu opsiynau**

Rydym wedi datblygu ac arfarnu nifer sylweddol o atebion posibl sy'n ffurfio'r rhestr hir o opsiynau yn astudiaeth WelTAG. Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r opsiynau hyn ac yn darparu disgrifiad byr ynglŷn â pham y cafodd rhai eu diystyru:

- Trafniadaeth Gyhoeddus / teithio aml-fodel – Cafodd ei ddiystyru am nad oedd yn mynd i'r afael â phroblemau a nodwyd o wella diogelwch wrth y gyffordd neu wella'r rhwydwaith ffyrdd strategol.

- Gwelliannau Ar-lein – cafodd ei ddiystyru oherwydd: natur islaw safon y briffordd bresennol, bodloni ychydig o amcanion y Cynllun, effaith ar eiddo a chyfyngiadau adeiladu/ymarferoldeb adeiladu.
- Gwelliannau i Gyffyrdd – Cylchfan / Cyffordd-T Groesgam – Cafodd atebion cylchfan eu diystyru oherwydd eu heffaith ar y rhwydwaith ffordd strategol gan y byddent yn arafu holl draffig yr A40, sy'n cael effaith ar amserau siwrneiau, sŵn ac ansawdd yr aer.
- Atebion y Llwybr Deheuol - Cafodd dau opsiwn y Llwybr Deheuol eu rhoi ar y rhestr fer
- Atebion y Llwybr Gogleddol – Cafodd dau opsiwn y Llwybr Gogleddol eu rhoi ar y rhestr fer
- Mesurau atebol Teithio Llesol, cerdded, beicio a marchogaeth - Gallai pob opsiwn arfaethedig gynnwys mesurau teithio llesol ategol. Ar eu pennau'u hunain, ni fyddai'r mesurau hyn yn datrys yr holl broblemau nac yn bodloni'r holl amcanion.

O'r rhestr hir o opsiynau a roddwyd uchod, cafodd pedwar opsiwn ar y rhestr fer eu nodi i'w hystyried ymhellach.

### **Rhestr fer o opsiynau**

Mae'r pedwar opsiwn ar y rhestr fer yn cael eu dangos ar y dudalen ganlynol. Mae pob un o'r opsiynau hyn ar y rhestr fer yn darparu ffordd Lydan Sengl 2+1 i safonau cyfredol, yn cynnwys dwy lôn yn teithio i un cyfeiriad (gan ddarparu cyfleoedd i oddiweddyd) a lôn sengl i'r cyfeiriad arall. Mae'r naratif canlynol yn rhoi crynodeb byr o bob un o'r atebion.

**Opsiwn 1A – Llwybr Gogleddol gyda chyffordd-T groesgam wrth Groesffordd Maencoch**

- Gwell diogelwch wrth y gyffordd - cyffordd yn cydymffurfio â safonau modern
- Gwell cysylltedd lleol a chenedlaethol
- Effaith ar dreftadaeth ddiwylliannol – Heneb Gofrestredig (Twmwlws/Crugiau) yn arwain at fwy o botensial ar gyfer archaeoleg
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol
- Effaith ar fioamrywiaeth

**Opsiwn 1B – Llwybr Gogleddol (dim Cyffordd wrth Groesffordd Maencoch)**

- Darpariaeth goddiweddyd ychwanegol
- Darparu trosbont ar y B4313 i gynnal cysylltedd lleol o'r gogledd i'r de, a gwella diogelwch
- Effaith ar dreftadaeth ddiwylliannol – Heneb Gofrestredig (Twmwlws/Crugiau) yn arwain at fwy o botensial ar gyfer archaeoleg
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol
- Effaith ar gysylltedd lleol at gefnffordd yr A40. Diddymu cyffordd Croesffordd Maencoch
- Effaith ar fioamrywiaeth

**Opsiwn 2A - Llwybr deheuol gyda chyffordd-T groesgam wrth Groesffordd Maencoch**




- Gwell diogelwch wrth y gyffordd
- Gwell cysylltedd lleol a chenedlaethol
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol
- Angen mewnforio deunydd sylweddol i godi'r arglawdd
- Effaith ar fioamrywiaeth


Opsiwn 2B – Llwybr Deheuol (dim Cyffordd wrth Groesffordd Maencoch)

- Darpariaeth goddiweddyd ychwanegol ar yr A40 i gyfeiriad y dwyrain a'r gorllewin
- Darparu trosbont ar y B4313 i gynnal cysylltedd lleol o'r gogledd i'r de, a gwella diogelwch
- Lleihad bach yn safon priffordd y brif linell (o gymharu â'r opsiynau eraill)
- Cysylltedd lleol at yr A40 yn cael ei ddarparu wrth Gylchfan Penblewin
- Llai o effaith ar y dirwedd a llai o effaith weledol
- Effaith ar fioamrywiaeth


### Opsiwn 1A - Llwybr Gogleddol gyda chyffordd-T groesgam wrth Groesffordd Maencoch




### Opsiwn 1B - Llwybr Gogleddol (dim Cyffordd wrth Groesffordd Maencoch)



## Opsiwn 2A - Llwybr deheuol gyda chyffordd-T goresgam wrth Groesffordd Maencoch



## Opsiwn 2B - Llwybr Deheuol (dim Cyffordd wrth Groesffordd Maencoch)



## Arfarniad o'r opsiynau

Fel rhan o'r Astudiaeth WeITAG gyfredol, mae arfarniad yn cael ei gynnal o'r opsiynau. Mae hyn yn cynnwys arfarniad o'r opsiynau llwybrau yn erbyn: Amcanion y Cynllun, ystyriaethau cymdeithasol a diwylliannol, ystyriaethau amgylcheddol ac ystyriaethau economaidd. Cynhelir yr arfarniadau yn erbyn y Senario Gwneud y Lleiaf Posibl, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol gydag ymyrraeth gyfyngedig ac yn cynnwys unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r arfarniad yn ystyried hefyd sut mae pob opsiwn yn perfformio o ran datrys y problemau dynodedig.

Mae Atodiad A i'r Ddogfen Ymgynghori hon yn dangos tablau cryno o'r arfarniad cychwynnol o'r opsiynau yn erbyn amcanion y Cynllun. Rhoddir trosolwg lefel uchel o'r canfyddiadau cychwynnol isod:

- Byddai Opsiynau 1B a 2B yn darparu 1.2km o gyfle i oddiweddyd o gymharu â 0.9km ar gyfer Opsiynau 1A a 2A, sy'n cynyddu cyfleoedd mwy diogel i oddiweddyd i'r eithaf felly.
- O ystyried bod mwyafrif y gwrthdrawiadau a nodwyd dros gyfnod yr astudiaeth yn ardal yr astudiaeth wedi'u cofnodi wrth Groesffordd Maencoch, byddai pob un o'r opsiynau yn darparu gwelliannau sylweddol i ddiogelwch. Caiff gwrthdaro posibl ei ddileu i raddau ychydig mwy gydag Opsiynau 1B a 2B, o ystyried nad oes unrhyw gyffyrdd canolraddol.
- Byddai Opsiynau 1B a 2B yn dileu mynediad uniongyrchol at yr A40 newydd yn lleoliad cyffordd bresennol Croesffordd Maencoch; gan arwain at rywfaint o ddargyfeiriadau parhaol yn lleol er mwyn ymuno â'r A40/gadael yr A40.
- Byddai Opsiynau 1B a 2B yn darparu mwy o fanteision ar gyfer cysylltedd teithio llesol rhwng Arberth a Bethesda; byddai cerddwyr, beicwyr a marchogwyr yn gallu croesi'r A40 newydd ar hyd trosbont, felly ni fyddai angen iddynt ymdopi â thraffig yr A40.
- Er na fyddai'r opsiynau yn annog newid moddol at opsiynau trafndiaeth mwy cynaliadwy, trwy gynyddu cyfleoedd i oddiweddyd byddent yn darparu buddion cynaliadwyedd o ran effeithlonrwydd cyffredinol siwrneiau yn ogystal â gwella mynediad i ardaloedd cyflogaeth allweddol, gan gefnogi twf economaidd a chynhwysiant cymdeithasol.
- Byddai angen cymryd tir ar gyfer yr holl opsiynau llwybrau a byddai effeithiau amgylcheddol cysylltiedig ar y dirwedd, bioamrywiaeth, priddoedd ac ati a fyddai'n golygu bod angen cynnal arolygon ac asesiadau pellach.
- Byddai Opsiynau 1A ac 1B yn cael effeithiau sylweddol ar ein treftadaeth ddiwylliannol. Byddai effaith ar leoliad yr Heneb Gofrestredig a photensial uchel ar gyfer canfod olion archaeolegol, a allai arwain at risg sylweddol i gyflawni'r prosiect.

## Yr ateb a ffefrir

O ystyried yr angen dynodedig am Cynllun a chan ystyried canfyddiadau diweddaraf astudiaeth WelTAG sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd, ystyrir mai Opsiwn 2B (Llwybr Deheuol heb gyffordd wrth Groesffordd Maencoch) yw'r ateb gorau ar hyn o bryd. Opsiwn 2B sy'n mynd i'r afael orau â'r problemau, sy'n cyflawni'r amcanion orau ac yn perfformio orau yn erbyn mwyafrif y meini prawf arfarnu diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Gwerthfawrogir y byddai rhai effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd fel rhan o'r ateb. Hefyd, mae Opsiwn 2B wedi'i gydnabod fel yr ateb a ffefrir yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid sydd wedi'u cynnal hyd yma. Mae hyn yn dynodi mai hwn sy'n debygol o fod yn fwyaf derbyniol i: gymunedau lleol, pobl a busnesau Cymru.

Byddai'r cynnig yn uwchraddio'r llwybr rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch trwy ddarparu cyfluniad 2+1 safonol modern gan alluogi goddiweddyd ar y cyfeiriad dwy lôn, gyda goddiweddyd wedi'i wahardd yn y cyfeiriad un lôn. Byddai'r Cynllun yn mynd heibio i'r de o Groesffordd Maencoch gyda'r gerbyttffordd newydd yn cael ei hadeiladu all-lein, a byddai'n dychwelyd ar-lein i'r gorllewin o Groesffordd Maencoch. Byddai rhannau o ffordd yr A40 bresennol yn aros er mwyn darparu mynediad lleol a chyfleoedd ar gyfer cysylltedd Teithio Llesol.

Fe wnaeth adborth o'r Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid godi nifer o bryderon ynglŷn â'r ateb hwn. Crynhoir y rhain isod:

- Byddai llwybrau mynediad at rai eiddo a busnesau lleol (yn sgil diddymu cyffordd Croesffordd Maencoch) yn arwain at ddargyfeirio'n barhaol y cerbydau sy'n teithio i'r gorllewin ac o'r gorllewin ar hyd yr A40 e.e. Hwlffordd.
- Effaith bosibl llifoedd traffig drwy Arberth (yn sgil diddymu cyffordd Croesffordd Maencoch), yn enwedig ar system unffordd Arberth.
- Effaith ar wasanaethau bysiau lleol.

Yn dilyn yr adborth o'r arddangosfeydd hyn, rydym yn cynnal arolygon traffig pellach er mwyn deall a gwerthuso'r pryderon hyn yn well.

## Hoffem gael eich barn

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal i geisio eich barn ar y gwelliannau arfaethedig rhwng #cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar yr A40, Sir Benfro. Rydym yn eich gwahodd i rannu eich barn a darparu adborth pellach, cyn i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ar y llwybr a ffefrir. Gallwch gynnig sylwadau mewn sawl ffordd: Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a ddarperir ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon, a gallwch ei hanfon yn ôl atom i'r : FREEPOST RTLK-KURC-ELKJ, Prosiectau Seilwaith – Trafnidiaeth, LLYWODRAETH CYRMU, PARC CATHAYS, CAERDYDD. CF10 3NQ

- neu anfonwch hi drwy'r e-bost i [A40enquiries@arup.com](mailto:A40enquiries@arup.com)
- Llenwch y ffurflen ymateb ar-lein: <https://llyw.cymru/gwelliannaur-a40-penblewin-i-groesffordd-maencoch-trosolwg-0>

## Sut i gael gwybod mwy

Byddai Martin Gallimore (Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd) yn hapus i helpu gydag unrhyw gwestiynau a allai fod gennych, ac mae ar gael yn Neuadd Bentref Llanddewi Felfre ar ddydd lau rhwng 10am a 4pm. Fel arall, gallwch gysylltu ag ef dros y ffôn ar 07923 887 119 neu drwy'r e-bost yn [A40enquiries@arup.com](mailto:A40enquiries@arup.com).

Gellir cael mwy o wybodaeth ar ein gwefan: <https://llyw.cymru/gwelliannaur-a40-penblewin-i-groesffordd-maencoch-trosolwg>

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd adroddiad ar y canfyddiadau yn cael ei gyhoeddi. Wedyn, bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu ar lwybr a ffefrir, a fydd yn cael ei gyhoeddi. Gyda hyn, bydd hysbysiad statudol a adwaenir fel TR 111 yn cael ei gyflwyno o dan Erthygl 19 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd). Bydd hwn yn diogelu llinell y ffordd arfaethedig, ac yn ei warchod rhag datblygu. Rhoddir llinell amser a ragwelir ar gyfer datblygu'r cynigion isod:

Gweithgarwch	Dyddiadau Allweddol	Disgrifiad
<b>Cyhoeddi'r Llwybr a Ffefrir</b>	Yr Hydref 2019	Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yr holl adborth ac yn cynnal arfarniadau pellach o'r opsiynau er mwyn helpu nodi opsiwn a ffefrir. Byddai llwybr a ffefrir yn cael ei gyhoeddi.
<b>Cyhoeddi Gorchymynion drafft a Datganiad Amgylcheddol</b>	Dechrau 2020	Os bydd angen, bydd y rhain yn pennu'r tir a fyddai ei angen i adeiladu'r Cynllun a'r gwaith lliniaru amgylcheddol cysylltiedig. Byddai'n nodi manylion mynedfeydd lleol a darpariaeth Mynedfeydd Preifat. Caiff y cyhoedd gyfle wedyn i wrthwynebu neu gefnogi'r Cynllun yn ffurfiol, neu awgrymu cynnig amgen.
<b>Ymchwiliad Cyhoeddus Posibl</b>	Haf 2020	Os bydd angen Ymchwiliad Cyhoeddus, byddai Arolygydd annibynnol yn gwrandao tystiolaeth, gerbron y cyhoedd, gan bartïon a rhanddeiliaid â buddiant. Byddai'r Arolygydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ar sut i fwrw ymlaen.
<b>Penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y Gorchymynion</b>	Dechrau 2021	Byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu p'un ai i wneud Gorchymynion Statudol i fwrw ymlaen ag adeiladu'r Cynllun.
<b>Penodi Contractwr Dylunio ac Adeiladu</b>	Dechrau 2021	Byddai contractwr yn ymgymryd â dyluniad manwl ac adeiladu'r Cynllun.
<b>Dechrau Adeiladu ar y Safle</b>	Haf 2021	Byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau.
<b>Gwelliannau'r A40 yn Agor</b>	Diwedd 2022	Byddai'r ateb a ffefrir yn cael ei roi ar waith a'i agor i'r cyhoedd.

**Ffurflen Ymateb  
i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1** O ystyried canlyniad ein harfarniadau cychwynnol ac adborth a ddarparwyd gan y cyhoedd yn yr Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd, ystyrir mai Opsiwn 2B yw'r ateb a ffefrir tebygol. A oes unrhyw sylwadau gennych ynglŷn â'r ateb hwn?

Nodwch yma:

**Cwestiwn 2:** Mae rhai pryderon wedi'u codi gydag Opsiwn 2B (gweler yr adran 'yr ateb a ffefrir' yn y ddogfen ymgynghori). Yn eich barn chi, a oes unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i Opsiwn 2B i fynd i'r afael â'r pryderon hyn?

Nodwch yma:

**Cwestiwn 3:** Pa ddarpariaeth Teithio Llesol (cerdded, beicio, marchogaeth) fyddech chi'n dymuno ei gweld yn cael ei hymgorffori yn Opsiwn 2B?

Nodwch yma:

**Cwestiwn 4 Posibl:** A oes unrhyw sylwadau pellach gennych ar Opsiwn 2B?

Nodwch yma:

**Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisiau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.**

**Cwestiwn A:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.


Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn B:** Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn C:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Nodwch yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:





## Atodiad A – Tabl Cryno'r Arfarniad

### Graddfa Asesu Saith Pwynt

<b>Buddiol Mawr</b>	<b>+++</b>
Cymedrol Fuddiol	<b>++</b>
Ychydig yn Fuddiol	<b>+</b>
Niwtral	<b>0</b>
Ychydig yn Niweidiol	<b>-</b>
Cymedrol Niweidiol	<b>--</b>
Niweidiol Mawr	<b>---</b>

### Amcanion

Amcanion	Disgrifiad	Sgôr
<b>A 1</b>	<p><b>Gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth.</b></p> <p>Fel llwybr allweddol o'r dwyrain-gorllewin, bydd yr opsiynau yn gwella hygyrchedd ar hyd yr A40 i drefi allweddol fel Hwlfordd a Chaerfyrddin. Bydd hyn yn darparu buddion cysylltiedig ar gyfer siwrneiau mewn ceir, yn ogystal â hygyrchedd i'r rheiny sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Byddai hyn yn gwella hygyrchedd i gyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth. Cynyddir y buddion potensial i'r eithaf o ystyried y ddibyniaeth uchel ar y car preifat yng ngolau cyd-destun demograffig-gymdeithasol a daearyddol yr ardal.</p> <p>Opsiynau 1B a 2B sy'n darparu'r hyd 2+1 pellaf o gerbyttfordd ac felly'n cynyddu cyfleoedd diogel i oddiweddyd o fewn y rhan o'r gefnffordd a fydd yn ei thro yn cyfrannu'n gadarnhaol at wydnwch gwell a gwell dibynadwyedd o ran amserau siwrneiau. Byddai'r opsiynau hyn yn darparu rhyw 1.2km o gyfle goddiweddyd 2+1. Mae potensial i'r opsiynau hyn ddarparu cyfleoedd i oddiweddyd (dwy lôn) i'r ddau gyfeiriad ar rannau gwahanol o'r llwybr. Yn ogystal, nid yw Opsiynau 1B a 2B yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyffordd groesgam wrth leoliad Croesffordd Maencoch, sy'n golygu nad oes angen i ddefnyddwyr trafndiaeth sy'n teithio o'r dwyrain-gorllewin ymdopi â thraffig / arafu yn y lleoliad hwn. Byddai opsiynau 1A a 2A yn darparu rhyw 0.9km o gerbyttfordd 2+1. Gallai'r ddwy lôn cael eu darparu i'r naill gyfeiriad neu'r llall, fodd bynnag, nid yw'n bosibl darparu cyfleoedd goddiweddyd (dwy lôn) i'r ddau gyfeiriad oherwydd hyd y llwybr. Mae 1A a 2A yn cynnwys cyffordd groesgam. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i draffig</p>	<p>Opsiwn 1A <b>++</b></p>
		<p>Opsiwn 1B <b>+++</b></p>
		<p>Opsiwn 2A <b>++</b></p>
		<p>Opsiwn 2B <b>+++</b></p>

Amcanion	Disgrifiad	Sgôr
	<p>ymdopi ag ymuno, croesi a gadael y gyffordd a byddai hynny'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd angen i draffig o'r dwyrain-gorllewin arafu, ac felly'n lleihau buddion cysylltedd strategol ychydig o gymharu ag Opsiynau 1B a 2B nad ydynt yn cynnwys cyffordd Croesffordd Maencoch.</p>	
<p><b>A 2</b></p>	<p><b>Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlfordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro yng Ngorllewin Cymru.</b></p> <p>Fel llwybr allweddol o'r dwyrain-gorllewin, bydd yr opsiynau yn gwella hygyrchedd ar hyd yr A40 i drefi allweddol fel Hwlfordd a Chaerfyrddin, yn ogystal ag ardaloedd cyflogaeth allweddol. Byddai cynyddu hyd y gerbyttfordd 2+1 gymaint â phosibl yn darparu'r budd pennaf o ran dibynadwyedd siwrneiau a ffyniant ehangach. Byddai Opsiynau 1B a 2B yn darparu 1.2km o gyfle i oddiwedd yd o gymharu â 0.9km ar gyfer Opsiynau 1A a 2A. Ystyrir felly y byddai Opsiynau 1B a 2B yn darparu buddion mwy ar gyfer cysylltedd strategol o gymharu ag Opsiynau 1A a 2A.</p> <p>Byddai peidio â darparu cyffordd at yr A40 newydd wrth Groesffordd Maencoch yn galluogi'r buddion strategol mwyaf ar gyfer cysylltedd gan na fyddai angen i gerbydau ymdopi â cherbydau yn ymuno â'r gerbyttfordd o'r gogledd a'r de. Byddai hefyd yn darparu gwell cyfleoedd i ddefnyddwyr trafndiaeth i oddiwedd y cerbydau sy'n symud yn araf.</p> <p>Heb gyffordd newydd wrth Groesffordd Maencoch, byddai rhai defnyddwyr trafndiaeth yn cael eu heffeithio'n niweidiol, er enghraifft, y rheiny sy'n byw ac yn gweithio gerllaw cyffordd bresennol Croesffordd Maencoch ac ar hyd Heol Maencoch. Gydag Opsiwn 1B ac Opsiwn 2B, byddai angen i ddefnyddwyr trafndiaeth fynd ar siwrnai hirach i ymuno â'r A40 o gymharu â'r sefyllfa bresennol.</p> <p>Mae asesiad economaidd cychwynnol wedi'i gynnal ar gyfer y pedwar opsiwn ar y rhestr fer. Mae canlyniadau'r</p>	<p><b>Opsiwn 1A</b> +</p> <p><b>Opsiwn 1B</b> ++</p> <p><b>Opsiwn 2A</b> +</p>

Amcanion	Disgrifiad	Sgôr
	<p>Gymhareb Cost a Budd yn dangos mai Opsiwn 2A sy'n darparu'r Gymhareb Cost a Budd orau. Mae Opsiwn 2B yn darparu buddion strategol tebyg ond gydag anfantais yn lleol.</p> <p>Roedd adborth a dderbyniwyd yn yr Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn awgrymu, er i rai ymatebwyr sôn am effaith negyddol ar hygyrchedd at yr A40, derbyniwyd mwy o sylwadau yn cefnogi dim cyffordd wrth Groesffordd Maencoch fel rhan o'r cynigion. Dywedodd 73 o ymatebwyr eu bod yn ffafrio dim cyffordd, a dywedodd 36 eu bod yn ffafrio cyffordd. Nodir na wnaeth 31 o ymatebwyr ddarparu ymateb na darparu ymateb amgen. Soniodd llawer o ymatebwyr am eu pryderon diogelwch ar gyfer unrhyw gyffordd groesgam wrth Groesffordd Maencoch yn ystod y ddau ddiwyddiad; roedd hyn yn cynnwys pryderon diogelwch ar gyfer y sefyllfa bresennol ac Opsiynau 1A a 2A.</p> <p>Gan ystyried hyn oll, rhagwelir y byddai Opsiwn 1B a 2B yn darparu deilliannau gwell ar gyfer yr amcan hwn oherwydd buddion cysylltedd y llwybrau ar raddfa strategol. Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn ffafrio diddymu cyffordd Croesffordd Maencoch hefyd.</p>	<p>Opsiwn 2B ++</p>
<p><b>A 3</b></p>	<p><b>Lleihau hollti cymunedol a chreu buddion o ran iechyd ac amwynderau</b></p> <p>Ystyrir y byddai pob un o'r opsiynau yn lleihau hollti cymunedol ac yn creu buddion o ran iechyd ac amwynderau, yn bennaf yn sgil tynnu cyfran sylweddol o'r traffig oddi ar yr A40 bresennol. Byddai hyn yn galluogi'r A40 bresennol, na fyddai'n gefnffordd mwyach, i berfformio fel llwybr mynediad lleol a hefyd darparu cyfleoedd mwy diogel ar gyfer symudiadau teithio llesol.</p> <p>Byddai Opsiynau 1B a 2B yn diddymu mynediad uniongyrchol at yr A40 newydd yn lleoliad cyffordd bresennol Croesffordd Maencoch. Er i rai ymatebwyr ddatgan dymuniad i gadw'r cysylltiad at yr A40 yn y lleoliad hwn, dywedodd mwy o ymatebwyr eu bod yn ffafrio dim cyffordd. Mae hyn yn dangos na fydd dim cyffordd yn creu</p>	<p>Opsiwn 1A +</p>

Amcanion	Disgrifiad	Sgôr
	<p>pryderon sylweddol ynglŷn â hollti cymunedol i lawer yn y gymuned leol efallai. Nodir serch hynny y byddai diddymu cysylltiad uniongyrchol yn cynyddu amserau siwrneiau e.e. i bobl leol a'r rheiny sy'n mynd i barc diwydiannol Croesffordd Maencoch.</p> <p>Byddai Opsiynau 1B a 2B yn cadw cysylltiad gogledd-de. Byddai Opsiynau 1A ac 1B yn torri mynediad uniongyrchol at yr A40 o ffyrdd dienw i'r gogledd o'r A40, fodd bynnag, byddai mynedfeydd yn cael eu creu i gyd-redeg â'r llwybr newydd, gyda mynediad newydd yn cysylltu â'r A478 i'r gogledd o gylchfan Penblewin. Byddai'r llwybrau mynediad newydd hyn yn darparu llwybr hirach ar gyfer mynd at yr A40 i'r gorllewin, fodd bynnag, ni fyddai gan y llwybrau gyffordd yn mynd at gefnffordd mwyach.</p> <p>Mae Opsiynau 1A a 2A yn darparu mynediad o'r gogledd a'r de at yr A40 newydd trwy gyffordd groesgam wedi'i dylunio i safonau dylunio modern. Byddai hyn yn cynnal mynediad uniongyrchol at yr A40 yn y lleoliad hwn, fodd bynnag, o adborth a dderbyniwyd o'r gymuned, nid oedd cyffordd yn y lleoliad hwn yn cael ei ffafrio gan y rhan fwyaf o ymatebwyr, gyda llawer o sylwadau'n ymwneud â phryderon ynghylch unrhyw gyffordd groesgam. Byddai'r opsiwn i ddefnyddio cyffordd newydd Croesffordd Maencoch serch hynny, yn well i rai yn y gymuned, a gyda'r gyffordd wedi'i dylunio i safonau dylunio modern, byddai hyn yn darparu gwelliant ar ei sefyllfa bresennol.</p> <p>Byddai'r holl opsiynau yn cadw cysylltedd o'r gogledd-de rhwng Arberth a Bethesda. Byddai Opsiynau 1B a 2B yn hwyluso'r cysylltiad hwn trwy drosbont yn hytrach na chyffordd groesgam. Er y byddai'r gyffordd groesgam wedi'i dylunio i safonau dylunio modern ac y byddai'n welliant ar y sefyllfa bresennol, byddai trosbont yn creu mwy o fanteision gan nad oes angen i ddefnyddwyr trafndiaeth ymdopi â'r groesfan yn erbyn y traffig.</p> <p>At ei gilydd, ystyrir y byddai'r holl opsiynau'n lleihau hollti cymunedol ac yn creu buddion o ran iechyd ac amwynderau. Nodir, serch hynny, y byddai Opsiynau 1B a 2B yn diwygio'r trefniant cyffordd, gan greu mwy o fuddion ar gyfer cysylltiedd o'r gogledd-de. Byddai symudiadau teithio llesol yn gwella yn yr ardal leol fwyaf drwy Opsiynau 1B a 2B gan na fyddai angen i gerddwyr, beicwyr a marchogwyr groesi'r A40 i symud o'r gogledd-de.</p>	<p>Opsiwn 1B ++</p> <p>Opsiwn 2A +</p> <p>Opsiwn 2B ++</p>

Amcanion	Disgrifiad	Sgôr
<p><b>A 4</b></p>	<p><b>Gwella diogelwch wrth Gyffordd Croesffordd Maencoch (a diogelwch canfyddedig) a lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau ar brif linell yr A40</b></p> <p>Mae cynyddu hydoedd y gerbyttfordd 2+1 yn golygu mai Opsiynau 1B a 2B sy'n darparu'r budd pennaf o ran diddymu mynediad uniongyrchol at y gefnffordd a darparu'r nifer fwyaf o gyfleoedd diogel a diamwys i oddiweddyd, gan leihau tebygolrwydd gwrthdrawiadau drwy symudiadau peryglus.</p> <p>Caiff gwrthdaro posibl ei ddiddymu i raddau ychydig mwy gydag Opsiynau 1B a 2B, o ystyried nad oes unrhyw gyffyrdd canolraddol.</p> <p>Byddai Opsiynau 1B a 2B felly yn diddymu'r gyffordd at yr A40; sef opsiwn a gefnogwyd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, byddai Opsiynau 1A a 2A yn darparu gwelliant sylweddol ar y sefyllfa bresennol.</p> <p>O ystyried bod mwyafrif y gwrthdrawiadau a nodwyd dros gyfnod yr astudiaeth yn ardal yr astudiaeth wedi'u cofnodi wrth Groesffordd Maencoch, byddai pob un o'r opsiynau yn darparu gwelliannau sylweddol i ddiogelwch. Byddai hyn yn cynnwys gwelliannau i ddiogelwch canfyddedig. Rhagwelir y byddai Opsiynau 1B a 2B yn darparu ychydig mwy o fuddion yn sgil mwy o gyfleoedd i oddiweddyd a bod dim cyffordd yn y lleoliad hwn i gerbydau ymdopi ag ef.</p>	<p>Opsiwn 1A ++</p>
		<p>Opsiwn 1B +++</p>
		<p>Opsiwn 2A ++</p>
		<p>Opsiwn 2B +++</p>
<p><b>A 5</b></p>	<p><b>Hyrwyddo teithio llesol drwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl fyw bywydau iach</b></p> <p>Byddai Opsiynau 1A a 1B yn hollti un hawl dramwy gyhoeddus, fodd bynnag, ystyrir y bydd effeithiau cysylltiedig yn cael ei lliniaru drwy ddargyfeiriadau ac ailosod. Byddai'r ffordd fynediad gyfochrog ar hyd rhan orllewinol y ffordd newydd yn helpu i gynnal mynedfeydd lleol.</p> <p>Mae'r opsiynau yn darparu'r cyfle hefyd wella / ychwanegu at gysylltiadau cerdded, beicio a marchogaeth yn y gymuned leol drwy ddargyfeirio llwybrau presennol a darparu llwybrau</p>	<p>Opsiwn 1A 0</p>
<p>Opsiwn 1B +</p>		

Amcanion	Disgrifiad	Sgôr
	<p>newydd. Byddai'r mesurau yn cael eu sefydlu fel rhan o WelTAG Cam 3, a byddai Aseiad ac Adolygiad o Gerdded, Beicio a Marchogaeth yn debygol o fod ar gael wedyn.</p> <p>Byddai'r holl opsiynau yn lleihau llif y traffig ar hyd yr A40 bresennol, ac yn darparu cyfleoedd felly ar gyfer siwrneiau teithio llesol mwy diogel a mwy dymunol.</p> <p>Byddai Opsiynau 1B a 2B yn darparu mwy o fuddion ar gyfer cysylltedd teithio llesol rhwng Arberth a Bethesda, gan fod cerddwyr, beicwyr a marchogwyr yn gallu croesi'r A40 newydd ar hyd trosbont, ac nid oes angen iddynt felly ymdopi â'r traffig ar hyd yr A40.</p>	<p>Opsiwn 2A 0</p> <p>Opsiwn 2B +</p>
<b>A 6</b>	<p><b>Cyflawni cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafndiaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanolfannau trafndiaeth allweddol</b></p> <p>Er bod yr opsiynau yn annhebygol o annog newid moddol, byddent yn darparu ychydig o fuddion ar gyfer siwrneiau at ganolfannau trafndiaeth gyhoeddus allweddol drwy welliannau i ddibynadwyedd amserau siwrneiau. Byddai manteision hefyd o ran mynediad i gymunedau lleol yn sgil priffordd well ac amodau gwell ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogwyr.</p>	<p>Opsiwn 1A +</p> <p>Opsiwn 1B +</p> <p>Opsiwn 2A +</p> <p>Opsiwn 2B +</p>
<b>A 7</b>	<p><b>Cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwysu gwastraff a charbon</b></p> <p>Er na fyddai'r opsiynau yn annog newid moddol at opsiynau trafndiaeth mwy cynaliadwy, trwy gynyddu cyfleoedd i oddiweddyd byddent yn darparu buddion cynaliadwyedd o ran effeithlonrwydd cyffredinol siwrneiau yn ogystal â gwella mynediad i ardaloedd cyflogaeth allweddol, gan gefnogi twf economaidd a chynhwysiant cymdeithasol.</p> <p>Fodd bynnag, byddai'r opsiynau priffyrdd i gyd yn cynnwys effeithiau carbon yn ystod yr adeiladu. Byddai Opsiwn 2B yn cael llai o effaith niweidiol o ystyried ei amodau gwell ar</p>	<p>Opsiwn 1A --</p> <p>Opsiwn 1B --</p> <p>Opsiwn 2A --</p>

Amcanion	Disgrifiad	Sgôr
	gyfer traffig gweithredol, gan leihau effaith allyriadau cerbydau.	Opsiw 2B -
<b>A 8</b>	<p><b>Rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafndiaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo hynny'n ymarferol</b></p> <p>Byddai angen cymryd tir ar gyfer yr holl opsiynau llwybrau a byddai effeithiau amgylcheddol cysylltiedig ar y dirwedd, bioamrywiaeth, priddoedd ac ati sy'n golygu bod angen cynnal arolygon ac asesiadau pellach. Fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn y cyfleoedd ar gyfer lliniaru a gwella, a buddion ehangach y cynllun.</p> <p>Mae Opsiynau 2A a 2B yn teithio trwy dir sy'n fwy amgylcheddol sensitif, fodd bynnag, mae Opsiynau 1A ac 1B yn teithio trwy dir sy'n fwy sensitif o ran treftadaeth ddiwylliannol.</p>	<p>Opsiw 1A --</p> <p>Opsiw 1B --</p> <p>Opsiw 2A --</p> <p>Opsiw 2B --</p>